Y Rhaglen Datblygu Organig: trefnir gan Ganolfan Organig Cymru yn cyflawni ar ran Cyswllt Ffermio

Triniaethau Milfeddygol ac Atal Clefydau mewn Ffermio Organig

Mae safonau organig yr Undeb Ewropeaidd a DEFRA yn rhannu iechyd a lles anifeiliaid yn ddwy ran, sef atal clefydau a thrin clefydau.

1. Atal Clefydau

Dylai'r egwyddorion a nodir isod gyfyngu problemau iechyd anifeiliaid fel bo modd rheoli clefydau'n bennaf trwy eu hatal.

i) Dewis brid sy'n addas i'ch system. Dichon na fyddai bridiau sydd angen llawer o sylw yn addas.
ii) Bydd rheoli anifeiliaid fel y gallant ddangos ymddygiad naturiol yn cryfhau eu gallu i wrthsefyll clefydau ac yn atal heintiau;
iii) Defnyddio porthiant o ansawdd uchel, ynghyd ag ymarfer corff rheolaidd a chyfle i bori. Bydd hyn yn cynyddu systemau amddiffyn naturiol yr anifail.
iv) Cadw llygaid ar lefelau stoc dan do a phan allan yn pori. Gall gorstocio gynyddu lledaeniad clefydau.
v) Bydd mesurau bioddiogelwch a chwarantin yn lleihau'r risg o gyflwyno clefydau i'r fferm.

2. Triniaeth

Os yw anifail ym mynd yn sâl neu'n cael ei glwyfo er gwaethaf y mesurau ataliol uchod, dylid ei drin yn ddi-oed, a hynny ar wahân mewn adeilad addas os oes raid.

Mae'n rhaid i gynnyrch meddyginiaethol milfeddygol fod wedi ei awdurdodi yn unol â deddfwriaeth gyfredol Ewrop a'r Deyrnas Unedig, a dylid ei ddefnyddio'n unig fel y caniateir o dan y fath ddeddfwriaeth.

Gellir defnyddio nifer o gynhyrchion **llysieuol**, **homeopathig** ac **elfennau hybrin** i drin anhwylderau, a dylid dilyn y trywydd hwnnw'n gyntaf os yw hynny'n briodol. Os nad yw defnyddio'r cynhyrchion hyn yn briodol, dylid defnyddio gwrthfiotigau neu gynhyrchion meddyginiaethol milfeddygol alopathig wedi ei syntheseiddio'n gemegol i drin yr anifail a sicrhau nad yw'n dioddef. Mae'n rhaid i bob triniaeth filfeddygol, gan gynnwys rhai llysieuol, gael eu cofrestru gan Y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol.
Ni ddylid defnyddio moddion neu wrthfiotigau milfeddygol **yn rheolaidd ar gyfer atal clefydau**. Dim ond pan fo mesurau hwsmonaeth ataliol wedi methu y gellir cyfiawnhau hyn, a hynny yn rhan o gynllun iechyd wedi'i gymeradwyo.

Gellir defnyddio **brechlynnau** pan fo risg o glefyd arbennig yn bodoli. Dylai'r brechlyn a ddefnyddir fod yn benodol i'r afiechyd e.e. peidiwch â defnyddio brechlyn 7 mewn 1 os yw brechlyn 4 mewn 1 yn ddigonol. Dylech drafod pa frechlyn y dylid ei ddewis gyda'ch milfeddyg.

Dylid cadw at **gyfnod diddyfnu** sydd ddwywaith hyd y cyfnod statudol o leiaf cyn lladd yr anifail neu werthu llaeth. Oni nodir unrhyw gyfnod diddyfnu neu pe nodir bod nifer y dyddiau diddyfnu yn sero, dylid caniatau i 48 awr fynd heibio o leiaf. Ceisiwch gael gwybodaeth glir gan eich corff rheoli am hyn. Ni ddylid bwydo lloi â llaeth gwrthfiotig.

→

Cyhoeddwyd gan Canolfan Organig Cymru,IBERS, Prifysgol Aberystwyth, Ceredigion SA23 3EB Ffôn: 01970 622248.
Ni all Canolfan Organig Cymru a'i phartneriaid dderbyn cyfrifoldeb am ganlyniadau unrhyw gamau a gymerir ar sail cynnwys ei ffeithlenni na chyhoeddiadau eraill.

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Canolfan Organig Cymru
Organic Centre Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Tri chwrs o driniaeth a dim mwy: Ac eithrio brechlynnau, triniaethau ar gyfer parasitiaid a chynlluniau dileu gorfodol, bydd anifail neu grŵp o anifeiliaid sy'n derbyn rhagor na thri chwrs o driniaethau gyda gwrthfiotigau neu gynhyrchion meddygol milfeddygol alopathig, neu mwy nag un cwrs o driniaeth os yw eu cylch bywyd cynhyrchiol yn llai na blwyddyn, yn anaddas i'w gwerthu fel anifeiliaid organig. Ni fydd y cynnyrch a geir ganddynt yn gallu cael ei werthu fel cynnyrch organig ychwaith. Gellir ail-drosi anifeiliaid bridio.

Cynllun Iechyd
Mae'n rhaid ichi ddatblygu cynllun iechyd ar gyfer eich menter da byw, a hynny gyda chymorth milfeddyg o bosibl. Dylid adolygu'r cynllun o leiaf unwaith y flwyddyn. Dylai'r fath gynllun sicrhau datblygiad patrwm o adeiladu iechyd a mesurau atal clefydau sy'n addas i amgylchiadau arbennig y fferm dan sylw, a chaniatáu esblygiad system ffermio sy'n mynd yn llai dibynnol ar gynhyrchion meddyginiaethol milfeddygol alopathig. Gweler ffeithlen C2 Chwefror 2008 i gael rhagor o wybodaeth ar sut i ddatblygu eich cynllun iechyd.

Mae'r ffeithlen hon wedi cael ei hysgrifennu gan ddefnyddio Rheoliadau DEFRA, a Safonau QWFC, OF&G a'r SA. Dylid defnyddio'r ffeithlen fel canllaw yn unig, a gellir cael y safonau llawn gan eich corff rheoli.